**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth**

**<u>Pwrpas</u>**

1. Rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried fersiwn ddrafft o'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth. Mae'r broses ymgynghori gyhoeddus ar y Cynllun eisoes ar y gweill ac mae copi ohono'n atodedig.

**<u>Crynodeb</u>**

2. Pwrpas y cynllun gweithredu yw rhoi elfennau'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol a'r Cynllun i Gymru sy'n berthnasol i sgiliau a chyflogaeth ar waith. Mae'n cydlynu nifer o fentrau sydd eisoes yn bod ac yn cynnig amryw o ddulliau eraill o weithredu a allai arwain at ddatblygiadau gwirioneddol yn y meysydd hyn. Mae'r cynllun yn seiliedig ar bedair thema:

a. **gwella'r mecanweithiau i ddatblygu'r gweithlu.** Mae angen sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn adlewyrchu'r sgiliau sydd eu hangen. Sefydlwyd Cynghorau Sgiliau'r Sector ledled y DU sy'n ddatblygiadau newydd pwysig ac mae trefniadau arbennig ar y gweill yng Nghymru a fydd yn atgyfnerthu rôl ELWa ac yn datblygu gwaith partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru.

b. **rhoi'r sgiliau angenrheidiol i'r rhai sy'n ymuno â'r farchnad waith.** Mae'r rhan hon yn uno'r hyn sydd ar waith mewn ysgolion (ee cydlynydd mathemateg cenedlaethol, y Fagloriaeth Gymreig, manteisio i'r eithaf ar brofiad gwaith) â mentrau ehangach megis y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol a'r diwygiadau i raglenni'n seiliedig ar waith.

c. **cydweithio â chyflogwyr a gweithwyr i wella sgiliau.** Nid oes cymaint o sgôp i'r sector cyhoeddus ymyrryd yn y cyswllt hwn ond gan fod 80% o weithlu 2011 Cymru eisoes mewn gwaith, mae'n amlwg bod hwn yn faes allweddol os yw'r cynllun am gael effaith wirioneddol ar y sefyllfa. Ymhlith yr hyn a argymhellir mae sicrhau bod ELWa'n cydweithio'n agos â chyflogwyr i ateb eu gofynion unigol, defnyddio mwy o feincnodau'r sector preifat, a llunio strategaeth i hybu hyfforddiant rheoli.

d. **helpu mwy o bobl i gael swyddi parhaol.** Mae hyn yn ymwneud â'r cwestiwn pwysig ynghylch sut y gallwn gynyddu cyfraddau ein gweithgaredd economaidd. Mae angen gwella'r Fargen Newydd yng Nghymru, gwella cydlyniad y prif asiantaethau, gan gynnwys ymyrraeth iechyd a chyflogaeth, a threchu'r rhwystrau o ran trafnidiaeth a gofal plant.

**<u>Amseriad</u>**

1. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft yn para hyd ddiwedd mis Rhagfyr.

**Cefndir**

2. Ceir ymrwymiad yn Gwell Cymru i lunio strategaeth gyflogaeth i Gymru a fydd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Sgiliau, ar sail canfyddiadau Sgiliau Dyfodol Cymru ac argymhellion y Tasglu Sgiliau. Mae'r cynllun gweithredu hwn, ynghyd â'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw ac yn rhoi ymateb terfynol y Cynulliad i adroddiad y Tasglu Sgiliau, yn sgil adroddiad cynnydd a roddwyd ar wefan y Cynulliad yn ddiweddar.

**Cydymffurfio**

3. Mae'r cynllun cyfan, y rhan fwyaf o'i feysydd polisi a'r holl fentrau newydd sydd yng ngofal y Cynulliad, yn unol â grym adrannau 2 a 5 Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 a drosglwyddwyd i'r Cynulliad ac a ddirprwywyd i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Lle bo gofyn i gyrff eraill weithredu, byddant yn defnyddio'u grym eu hunain, er enghraifft bydd ELWa'n gweithredu'n unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

**Goblygiadau Ariannol**

4. Nid yw unrhyw ran o'r cynllun yn rhwymo'r Cynulliad i wariant na ellir ei gynnwys mewn cyllidebau cyfredol na chyllidebau sydd wedi'u cynllunio. Dim ond gwariant ar gostau rhedeg fydd ei angen ar gyfer nifer o'r pwyntiau gweithredu a gellir cynnwys hynny yng nghyllidebau costau gweinyddol y Cynulliad a'r cyrff perthnasol eraill. Os yw'r gwahanol brosiectau peilot yn y cynllun gweithredu drafft yn llwyddiant, efallai y bydd angen canfod adnoddau ychwanegol cyn y gellir eu rhoi ar waith.

**Camau gweithredu i'r Pwyllgor**

5. Nodi a thrafod y cynllun drafft.

**Cyswllt**

Yr Is-adran Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd.

**ATODIAD A**

## CYNLLUN GWEITHREDU SGILIAU A CHYFLOGAETH DRAFFT I GYMRU, 2002

### ADRAN A - TROSOLWG

**Pwrpas**

1. Yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, *Cymru ar ei Hennill,* ceir amlinelliad o'r fframwaith cyffredinol ar gyfer datblygiad economaidd Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynnig manylion pellach am bolisïau a rhaglenni i ddatblygu sgiliau ein gweithlu a helpu mwy o bobl i sicrhau gwaith. Mae'n cyflawni ein hymrwymiad yn Gwell Cymru i greu strategaeth gyflogaeth sy'n cynnwys cynllun gweithredu sgiliau. Mae'n dibynnu'n helaeth ar adroddiad Tasglu Sgiliau Cymru, yn ategu papur diweddar y Cynulliad sy'n paratoi'r ffordd, sef "*Y Wlad sy'n Dysgu*" ac yn fodd i dywys rhaglenni a strategaethau cyflwyno ELWa – y Cyngor Cenedlaethol ac ELWa – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW), y Gwasanaeth Cyflogi/Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru a chyrff allweddol eraill. Mae'r ffocws ar y maes cyflogaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â'r gwaith tra'n cydnabod, ar yr un pryd, mai rhan yn unig yw hyn o'r agendâu economaidd a dysgu ehangach.

2. Rhaid gweithredu ar strategaethau os ydynt am gael unrhyw effaith a bwriada'r cynllun hwn wneud hynny trwy gamau gweithredu gan y Cynulliad ei hun a chan gyrff eraill yn eu cynlluniau eu hunain. Daw'r cyrff hyn ynghyd yn y bartneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru sy'n cynnig fforwm delfrydol ar gyfer gweithredu camau sy'n deillio o ymchwil ym maes sgiliau a datblygiadau eraill yn y farchnad lafur.

3. Ni fyddai'n realistig nac yn ddymunol i'r cynllun hwn amlinellu glasbrint cynhwysfawr o bopeth y bydd pob partner yn ei wneud yn y maes hwn. Ei nod, yn hytrach, yw rhoi strwythur i bolisïau a rhaglenni a chanolbwyntio ar rai o'r prif bwyntiau gweithredu. Y peth pwysicaf i'w wneud yw sicrhau bod ein prosesau yn iawn er mwyn i anghenion sgiliau cyflogwyr gael eu hintegreiddio'n llawn i'n rhaglenni dysgu, cefnogi a chynghori ac er mwyn cymryd camau effeithiol i helpu unigolion i sicrhau gwaith.

**Crynodeb**

4. Prif thema'r cynllun gweithredu hwn yw'r angen i gynyddu'r galw am waith sy'n mynnu gweithwyr hyfedr yng Nghymru. Mae angen i unigolion ddangos mwy o ddiddordeb mewn uwchraddio eu sgiliau eu hunain, mae angen help sydd wedi ei dargedu'n well i gyflwyno pobl i faes dysgu a chyflogaeth, a mwy o barodrwydd ar ran cyflogwyr i ddefnyddio gweithwyr hyfedr. Mae gan y rhain y potensial i weddnewid ein cymdeithas trwy gyflwyno mwy o bobl sydd wedi'u heithrio i faes gwaith, cynyddu cyfoeth personol, gwella perfformiad

busnes trwy arloesi a chynhyrchu mwy a thrwy gyflwyno manteision ehangach i feysydd megis iechyd ac i'n cymunedau. Dim ond os bydd yr holl asiantaethau yn cydweithio ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r prif ystyriaethau y gellir cyflawni cynnydd gwirioneddol yn y meysydd hyn.

**Cefndir Strategol**

5. Fel y nodir yn glir yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, mae angen i Gymru sicrhau cynnydd sylweddol o ran cyfoeth ac incwm. Ni fyddwn yn cyrraedd y targedau hynny heb sicrhau fod mwy o bobl yn mynd i weithio a thrwy godi safon swyddi yng Nghymru yn gyffredinol. Mae economi Cymru hefyd yn newid yn barhaus. Ychydig iawn o bobl, erbyn hyn, a all fod yn sicr o swydd am oes, ac felly mae sgiliau trosglwyddadwy, dysgu gydol oes a hyblygrwydd yn y farchnad lafur yn ystyriaethau pwysicach nag y buont erioed.

6. Nod y cynllun yw diwallu anghenion penodol Cymru a mynd i'r afael â themâu allweddol y Cynulliad mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r darlun ehangach yn y DU ac yn Ewrop. Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU ar gyfer Cyflogaeth yn amlinellu'r dull gweithredu yn y DU o dan y pedwar prif bennawd sy'n sylfaen i strategaeth cyflogaeth yr Undeb Ewropeaidd: gwella cyflogadwyedd; meithrin mentergarwch; annog ymaddasu ymysg busnesau a gweithwyr; ac atgyfnerthu cyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth. Edrycha'r cynllun yn bennaf ar y cyntaf o'r rhain neu ar ochr gyflenwad (pobl) y farchnad lafur, ond edrycha hefyd ar y modd y mae hynny'n cysylltu ag ochr alwadau'r farchnad (creu swyddi ac anghenion cyflogwyr o safbwynt sgiliau). Nid oes unrhyw ddiben mewn gweithredu ar un ochr yn unig; byddai hynny'n arwain at bobl sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer swyddi nad ydynt yn bodoli neu at brinder a bylchau o ran sgiliau sydd yn waeth, hyd yn oed, na'r sefyllfa bresennol, a swyddi na ellir eu llenwi. Rhaid i'r camau o wella lefelau sgiliau, cefnogi'r gwaith o greu swyddi a helpu pobl i sicrhau'r swyddi hynny, oll fynd law yn llaw â'i gilydd.

7. Ceisia'r cynllun fynd i'r afael â'r diffygion sy'n bodoli ers tro yn y farchnad yn hyn o beth. Pe bai ein cyfraddau gweithgarwch economaidd yn uchel o safbwynt y DU, pe bai pawb sy'n dod i mewn i'r farchnad lafur yn meddu eisoes ar y sgiliau y mae'r cyflogwyr yn chwilio amdanynt, a phe bai pob un o'n cyflogwyr yn buddsoddi mewn hyfforddiant i'r graddau angenrheidiol i gyflawni lefelau byd-eang o ysbryd cystadleuol a thwf, yna ychydig iawn y byddai'n rhaid ei wneud. Ond nid felly y mae hi. Mae Cymru yn 11eg allan o 12 ledled y DU o safbwynt canran y bobl o oedran gweithio sy'n economaidd weithgar. Mae ein lefelau o gyraeddiadau dysgu yn gwella (er enghraifft, mae ein perfformiad ym maes TGAU yn cyfateb â'r perfformiad yn Lloegr) ond y mae lefelau cyffredinol y sgiliau yn y boblogaeth yn gymharol wael o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU – er enghraifft, y ni yw'r 6ed allan o 12 ymysg y ganran o'r boblogaeth weithiol sydd wedi ymgymhwyso i Lefel 4 neu'n uwch. Wrth gymharu â llawer o wledydd tramor, mae'r darlun yn waeth fyth. Nid yw ein cyflogwyr, sydd ar ffurf Busnesau Bach a Chanolig eu Maint yn bennaf, yn buddsoddi'n ddigonol yn sgiliau eu gweithlu. Mae gwaith ymchwil Sgiliau Dyfodol Cymru yn dangos fod pump o gyflogwyr wedi cyfaddef eu hunain nad

oeddent yn rhoi cyfle i'w gweithwyr feithrin y sgiliau sy'n berthnasol i'w swyddi presennol, heb sôn am y swyddi sy'n mynnu sgiliau uwch.

8. O ganlyniad, caiff llawer o gyflogwyr eu dal yn ôl gan y bylchau yn sgiliau eu gweithlu a phrinder sgiliau pan fônt yn ceisio recriwtio. Mae llawer ohonynt yn canfod eu bod mewn magl sgiliau isel/GDP isel ac, yn sgîl hynny, y maent yn addasu i'r diffyg o ran sgiliau, nid trwy fuddsoddi yn y broses o'u sicrhau, ond trwy gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau lle nad oes eu hangen. Canlyniad hyn yw parhau ein cyfraniad cymharol fechan at ddiwydiannau sydd ar eu prifiant gydag ond ychydig o glystyrau diwydiannol cryf. Ni lwyddwn fyth i gyflawni ein targedau economaidd yn y ffordd hon. Erbyn hyn, mae gwybodaeth ac ymelwa ar wybodaeth yn sylfaen i ffyniant, yn fwy nag y bu erioed.

9. Gall hyfforddiant fod yn ddrud ac mae llawer o gyflogwyr, yn enwedig Busnesau Bach a Chanolig eu Maint, yn disgwyl recriwtio staff sydd wedi'u hyfforddi'n barod. Mae llawer yn pryderu, pe baent yn buddsoddi mewn hyfforddiant i'w staff, y byddai eu staff wedyn yn fwy deniadol i gyflogwyr eraill ac yn gadael. Mae gan unigolion gyfrifoldebau hefyd, ac ychydig iawn sy'n sylweddoli pa mor bwysig yw iddynt wella eu sgiliau. I ryw raddau, felly, nid yw'r angen am sgiliau uwch yn yr economi yn cael ei drosi i'r hyfforddiant priodol. Ar yr un pryd, y mae llawer o bobl yn ei chael yn anodd canfod swyddi sy'n gwneud defnydd o'u sgiliau. Mae yna ddiffygion yn y farchnad yn hyn o beth sy'n cael eu cydnabod ar raddfa eang ac maent yn cynnwys: prinder cyngor a gwybodaeth berthnasol; meddylfryd tymor byr; rhwystrau rhag i gyflogwyr weithredu ar y cyd; problemau ariannu; diffyg symudedd; ansicrwydd ynghylch y manteision o fuddsoddi mewn hyfforddiant. Cyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol, trwy weithio ochr yn ochr â chyflogwyr a'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, yw cydlynu camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn ac i roi Cymru ar drywydd o dwf a fydd yn arwain at fwy o ffyniant, gwell cytgord cymunedol ac ansawdd bywyd.

## **<u>Dull Gweithredu Strategol</u>**

10. Ein huchelgais yw gweld Cymru'n wlad lle mae pawb yn meddu ar y sgiliau, y symbyliad a'r cyfle i sicrhau swyddi sy'n diwallu eu dyheadau a'u galluoedd, a lle mae cyflogwyr yn gweithio gyda'u gweithwyr ac asiantaethau yn y sector cyhoeddus i gynyddu sgiliau at y lefel uchaf bosibl i gefnogi swyddi o safon uchel mewn economi sydd ar ei phrifiant.

11. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y meysydd hynny yng Nghymru y gallwn ni helpu i'w gwella. Mae'n cynnig strategaeth bedair-elfen fel fframwaith i ganolbwyntio ar bwyntiau gweithredu penodol:

a. Gwella'r peirianweithiau ar gyfer datblygu'r gweithlu, gan gynnwys: cynyddu'r ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgiliau a gwybodaeth yrfaol o ansawdd dda; dynodi'r anghenion o ran sgiliau trwy roi llais i gyflogwyr a thrwy ymchwilio ymhellach; trosi'r anghenion hynny i broses o gynllunio rhaglenni dysgu a chreu swyddi;

b. Arfogi newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur gyda'r sgiliau y mae eu hangen ar gyflogwyr;

c. Gweithio gyda chyflogwyr a gweithwyr i wella sgiliau'r gweithlu presennol.

d. Helpu mwy o bobl i sicrhau cyflogaeth gynaliadwy;

12. Mae rhai o'r camau gweithredu dilynol yn cyffwrdd ar yr elfennau hyn, megis y Strategaeth Medrau Sylfaenol a datblygiad TGC.  Mae rhai ohonynt yn cael eu gweithredu'n barod tra bo eraill yn gynigion cychwynnol yn unig sydd angen eu datblygu ymhellach.  Uwchlaw popeth, dylid ystyried y cynllun fel gwaith sydd ar y gweill i gael ei addasu a'i ddiwygio fel y caiff syniadau eu treialu ac fel y daw syniadau newydd i'r amlwg.

13. Nid yw'r cynllun yn ailadrodd yr holl bolisïau a'r cynlluniau sy'n berthnasol ledled meysydd eang dysgu a datblygiad economaidd.  Ymdrinnir â llawer o'r rhain yn y *Strategaeth Datblygiad Economaidd Genedlaethol* ac yn *Y Wlad sy'n Dysgu.* Cynlluniwyd agweddau dysgu'r rhaglen fel eu bod yn integreiddio gyda strategaeth gorfforaethol ELWA – y Cyngor Cenedlaethol sydd ar fin ymddangos, a chânt eu hadlewyrchu a'u datblygu yng nghynlluniau corfforaethol a gweithredol y Cyngor.

**Gweithrediad**

14. Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru, dan gadeiryddiaeth y Cynulliad, sy'n berchen ar y cynllun a'r bartneriaeth honno sy'n gyfrifol am weithredu arno. Bydd yn derbyn cefnogaeth Uned Sgiliau ELWa sy'n cyfrannu'n helaeth at waith y bartneriaeth.  Daw aelodau partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru o'r holl brif sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r maes hwn a sefydlir is-grwp i oruchwylio gweithrediad y cynllun gweithredu hwn.  Bydd yn cyflwyno adroddiadau gwaith rheolaidd i'r bartneriaeth.  Y Cynulliad a fydd yn cydlynu'r gwaith o ddiweddaru'r cynllun yn rheolaidd.

**Targedau a Monitro**

15. Gosodir targedau ar gyfer camau unigol os yw hynny'n berthnasol a'r bwriad yw monitro'r cynllun yn gyffredinol yn erbyn nifer o ddangosyddion mesuradwy.  Gofynnir am sylwadau ynghylch dangosyddion posibl.  Mae'r posibiliadau'n cynnwys:

- canran y cyflogwyr sy'n wynebu bylchau a phrinder o ran sgiliau, fel yr adroddir yn Sgiliau Dyfodol Cymru neu arolygon eraill;

- y targedau dysgu gydol oes, yn ôl yr amlinelliad ym Mhennod 8 *Y Wlad sy'n Dysgu*, ee: cyfran yr oedolion o oedran gweithio sy'n meddu ar gymhwyster Lefel 3 i gynyddu o 3 o bob 10 ym 1996 i bron i 5 o bob 10 erbyn 2002, dros  5 o bob 10 erbyn 2004, 6 o bob 10 erbyn 2007 a thros 6 o bob 10 erbyn 2010;

- canran y boblogaeth sy'n economaidd weithgar, yn ôl oedran, hil a rhyw;
- y rhai sy'n cofrestru ar gyfer y dyfarniad Buddsoddwyr mewn Pobl
- detholiad o ddata mewnbwn, ee niferoedd y bobl sy'n sicrhau Cymhwyster Sgiliau Allweddol.

## ADRAN B – CAMAU GWEITHREDU

### A. Gwella'r Peirianweithiau ar gyfer Datblygu'r Gweithlu.

### Y Strategaeth

16. Gall ymyrraeth ar ran y sector preifat a'r sector cyhoeddus helpu i oresgyn diffygion yn y farchnad lafur os nad yw sgiliau'n cyfateb yn dda, bob amser, i anghenion y cyflogwyr neu'r economi yn gyffredinol a phan nad yw unigolion yn ymwybodol, bob amser, o bwysigrwydd gwella eu sgiliau. Mae angen i unigolion, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant, felly, sicrhau'r wybodaeth orau bosibl fel sylfaen i'w penderfyniadau. Yn y *Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant i Gymru 1999,* pwysleisiwyd bod angen i wybodaeth am y farchnad lafur o Sgiliau Dyfodol Cymru fod yn sylfaen i bolisïau ynghylch datblygiad a chyraeddiadau. Mae angen, yn ogystal â hynny, i beirianweithiau fod ar waith i adnabod ac ymdrin â chyfleoedd ar gyfer twf a meysydd lle ceir problemau.

17. Cyhoeddir y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth cyntaf hwn yn erbyn cefndir o newidiadau arwyddocaol ar lefel y DU i rwydwaith y Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol. Byddir yn sefydlu Cynghorau Sgiliau Sector newydd a'r rheiny'n gweithio dan drwydded i Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector newydd. Mae'n hanfodol i Gymru'n fod yn rhan o'r strwythur newydd hwn oherwydd fod llawer o ystyriaethau sy'n ymwneud â'r farchnad lafur yn rhai sy'n gyffredin i'r DU i gyd ac nid yw llawer o'n cyflogwyr yn gweithio o Gymru. Hefyd, mae angen i ni sicrhau'r gallu i fynd i'r afael â materion sy'n benodol i Gymru. Ar hyn o bryd, parhau a wna'r drafodaeth ynghylch y trefniadau manwl ar gyfer Cymru.

18. Mae ein strategaeth yn seiliedig ar dair prif elfen:

a. yn gyntaf, byddwn yn atgyfnerthu gallu'r prif sectorau cyflogaeth i adnabod a chyfleu eu hanghenion o safbwynt sgiliau ac i gymryd camau i ddiwallu'r anghenion hynny; gwneir hyn yn bennaf trwy'r rhwydwaith Cynghorau Sgiliau Sector newydd yng Nghymru a hefyd trwy weithio gyda fforymau o gyflogwyr, grwpiau cyswllt ELWa, a thrwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant megis addysg uwch;

b. yna, byddwn yn adeiladu ar lwyddiant Sgiliau Dyfodol Cymru trwy gyflawni gwelliannau pellach i'r sylfaen dystiolaeth;

c. yn olaf, awn ati'n frwd i gydweithio, gan ddefnyddio canlyniadau gwaith ymchwil, i fynd i'r afael ag anghenion y sectorau hynny sy'n allweddol i dwf economi Cymru ynghyd ag ystyriaethau mwy cyffredinol o ran sgiliau a chyflogaeth i gyflogwyr ac unigolion.

19. Un o'r gofynion mwyaf sylfaenol yw fod Cymru'n meddu ar y wybodaeth orau bosibl am y farchnad lafur, gan fanteisio i'r eithaf ar wybodaeth ac

arbenigedd cyflogwyr a chyrff sy'n seiliedig ar gyflogwyr. Dangosodd y bartneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru ei bod yn gyfrwng effeithiol o gydlynu gwaith ymchwil a dosbarthu'r canlyniadau. Ein bwriad yw adeiladu ar hynny trwy integreiddio'n glosiach â gwaith y Cynghorau Sgiliau Sector newydd a thrwy roi i'r bartneriaeth y cyfrifoldeb o weithredu mewn ffordd strategol ar y camau a gyfyd o'r wybodaeth am y farchnad lafur.

20. Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau economaidd ehangach, y mae'n hanfodol ein bod yn cynyddu'r gwaith o drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau lefel-uchel i fusnesau yng Nghymru, i'r sectorau twf uchel yn enwedig, ac i gefnogi gwaith Ymchwil a Datblygu dan arweiniad busnesau.

**<u>Seiliau Rhesymegol</u>**

21. Ni ellir cynllunio'r farchnad lafur mewn ffordd fecanistig, ac ni ddylid ceisio gwneud hynny. Rhaid i'r farchnad barhau i fod yn hyblyg er mwyn gallu ymateb i ofynion ac anghenion newidiol. Gallem helpu i ddarparu hyblygrwydd mewn sawl ffordd, ac un o'r ffyrdd hynny yw cynnig gwybodaeth dda i gyflogwyr ac i unigolion ynghylch y gofynion o ran sgiliau a'r rhagolygon gwaith. Ffordd arall yw annog pobl i sicrhau sgiliau generig trosglwyddadwy, megis cyfathrebu. Amlygwyd y rhain gan waith ymchwil Sgiliau Dyfodol Cymru fel sgiliau pwysig dros ben. Mae angen i unigolion, cyflogwyr, undebau llafur, darparwyr dysgu ac asiantaethau eraill yn y maes sylweddoli pa mor sylfaenol bwysig yw sgiliau, pa sgiliau a fydd yn angenrheidiol at y dyfodol a'r hyn y gellir ei wneud i'w sicrhau. Mae angen i unigolion gynllunio eu gyrfaoedd ac mae angen i gyflogwyr gynllunio sut i ddatblygu eu gweithlu er mwyn diwallu amcanion busnes. Er mwyn cyflawni hynny, rhaid wrth y wybodaeth orau bosibl ynghyd â'r help a'r arweiniad i ddehongli'r wybodaeth honno a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.

22. Mae llawer o waith buddiol eisoes ar y gweill, gan gynnwys y gwaith ymchwil a gydlynir gan Uned Sgiliau ELWa a'r cyngor a'r arweiniad i bobl o bob oedran a gynigir gan Gyrfa Cymru i unigolion, cyflogwyr a darparwyr dysgu. Mae sefydlu ELWa wedi cyfrannu'n helaeth tuag at welliannau yn y gwaith o gydlynu a thargedu'r ddarpariaeth ddysgu ôl-16. Bydd Canolfan Byd Gwaith yn sicrhau gwell cysylltiad gyda chyflogwyr trwy benodi rheolwyr cysylltiadau lleol a fydd yn sicrhau y rhoddir cefnogaeth wedi'i theilwra i gyflogwyr sy'n cael anawsterau wrth recriwtio.

23. Fodd bynnag, y mae angen gwneud mwy: rhaid bod yn gliriach ynghylch swyddogaethau'r gwahanol bartïon yn y gwaith o ddatblygu'r gweithlu, er enghraifft i gysylltu'r asesiadau sgiliau a marchnad lafur a gynhyrchir gan gyflogwyr a chan y Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol (ac, yn y dyfodol, y Cynghorau Sgiliau Sector) gyda gwaith ELWa – y Cyngor Cenedlaethol o gynllunio a noddi dysgu ôl-16; cynhyrchu gwybodaeth fwy penodol ynghylch anghenion y sectorau a'r galwedigaethau penodol o ran sgiliau, yn enwedig y rhai a ddynodwyd yn sectorau a allai fod ar eu prifiant; rhaid dosbarthu gwybodaeth yn fwy helaeth er mwyn dylanwadu ar y dysgu yn ein hysgolion ac mewn canolfannau dysgu eraill; mae angen i ni weithio gyda staff ymgynghorol Gyrfa Cymru a'r Gwasanaeth Cyflogi/Canolfan Byd Gwaith i'w

diweddaru ynghylch materion sy'n ymwneud â sgiliau fel y gallant gynnig cyngor perthnasol a chyfredol; mae arnom angen gwell peirianweithiau i drosi anghenion a ddynodwyd yn gamau gweithredu; mae arnom angen cysylltiadau mwy cadarn gyda chyflogwyr, fel y gallant ddefnyddio gwybodaeth gwaith ymchwil yn amlach yn eu prosesau cynllunio; ac mae arnom angen dysgu mwy o'r arferion da a ddefnyddir mewn gwledydd eraill.

24. Mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau bod mesurau i hybu twf a swyddi a mesurau i baratoi pobl ar gyfer cyflogaeth a datblygiad gyrfaol yn integreiddio â'i gilydd. Mae dull "Tîm Cymru" o weithredu yn effeithiol iawn o ran ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad lafur ym mhegynau eithaf y sbectrwm – recriwtio ar raddfa fawr a diswyddiadau ar raddfa fawr.  Byddai sicrhau safbwynt mwy cadarnhaol tuag at y darlun cyffredinol o'r farchnad lafur yn talu ar ei ganfed yn enwedig pe byddai Cymru yn sicrhau buddsoddiad y busnesau hynny sy'n cynnig swyddi gwerth ychwanegol sy'n talu'n dda.  Dim ond trwy gyflawni'r gwaith cychwynnol o baratoi a hyfforddi pobl i gystadlu ar gyfer y swyddi hyn, pan gyrhaeddant, y gallwn ddenu buddsoddiad o'r fath.

25. Mae angen camu-i-mewn hefyd i sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn meddu ar y gweithwyr sgiliau-uchel sy'n angenrheidiol i greu syniadau newydd ar gyfer cynhyrchu cyfoeth er mwyn rhoi'r gwynt dan adain ein huchelgeisiau economaidd.  Mae amrywiaeth eang o raglenni eisoes ar y gweill gan gynnwys y Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth, ond rhaid i ni fod yn siwr fod popeth sy'n bosibl yn cael ei wneud i helpu ein cyflogwyr a'n mentrwyr busnes i gystadlu'n effeithiol.

**Camau Gweithredu**

A1: sefydlu rhwydwaith o Gynghorau Sgiliau Sector newydd dan arweiniad y cyflogwyr i weithredu'n effeithiol yng Nghymru, gan adeiladu ar waith y Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol, a chydweithio'n glos â phartneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru a chyda chyflogwyr yng Nghymru.  Bydd y Cynghorau hyn yn cymryd yr awenau i hybu dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar y sectorau er mwyn diwallu anghenion sgiliau'r cyflogwyr.  Targed:  yn weithredol o fis Ebrill 2002.

A2. Atgyfnerthu partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru trwy sefydlu Grwp Cyflogwyr, gyda'r aelodau'n dod o'r Cynghorau Sgiliau Sector, fforymau o gyflogwyr a Busnes Cymru, er mwyn dynodi'r prif ystyriaethau o ran sgiliau a bwydo sylwadau a chynigion ar gyfer camau gweithredu i'r bartneriaeth ehangach.

A3: Yr Uned Sgiliau i gynhyrchu cronfa ddata gynhwysfawr o'r holl wybodaeth sgiliau sy'n berthnasol i Gymru, gwybodaeth a fydd ar gael i bawb yn electronig ac a gaiff ei dosbarthu'n eang.  Targed – gweithredol erbyn mis Ebrill 2002;

A4: ail arolwg cynhwysfawr gan Sgiliau Dyfodol Cymru. Targed – i'w gynnal yn ystod Gwanwyn 2003.

A5: Yr Uned Sgiliau i weithio'n glos gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector newydd dan faner Sgiliau Dyfodol Cymru i gynhyrchu adroddiadau rheolaidd, awdurdodol ar y prif sectorau cyflogi.  Mae'r adroddiadau hyn i gynnwys gwybodaeth am y farchnad lafur a phrif anghenion a chamau datblygu yng nghyswllt y gweithlu yng Nghymru.  Targed: 3 adroddiad yn 2002-03 i gynyddu i adroddiad llawn am yr holl brif sectorau, a hwnnw i gael ei ddiweddaru'n rheolaidd;

A6: Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru i gyhoeddi a goruchwylio strategaeth gysylltiadau Sgiliau Dyfodol Cymru.  Targed Ebrill 2002;

A7. Gyrfa Cymru i weithio gydag ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol i gynhyrchu deunyddiau dysgu a rhoi cyflwyniadau rheolaidd ar sgiliau i'r holl ddarparwyr dysgu.  Targed – cwblhau'r rownd gyntaf erbyn mis Ebrill 2003.

A8. ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol, fel rhan o'u gwaith o gefnogi a datblygu'r rhwydwaith o gyflenwyr dysgu, i ddosbarthu gwybodaeth sgiliau yn rheolaidd i'w darparwyr hyfforddiant ac i'r Consortia Addysg a Hyfforddiant Cymunedol (CHACau), yn flynyddol fan lleiaf. Targed – cwblhau'r rownd gyntaf erbyn mis Ebrill 2003.

A9. ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol i gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys gwersi a gafwyd o arferion da y tu allan i Gymru wrth ddatblygu sgiliau'r gweithlu.  Targed – Gorffennaf 2002.

A10. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru - ELWa i gynorthwyo sefydliadau addysg uwch i ddatblygu eu gwasanaeth gyrfaoedd ac i archwilio cysylltiadau gyda Gyrfa Cymru.

A11. Cytundeb rhwng ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol, Y Gwasanaeth Cyflogi, Gyrfa Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru sy'n amlinellu dull cytunedig o gydweithredu strategol gyda'r nod o sicrhau y llunnir cysylltiadau priodol rhwng mesurau'r ochr gyflenwi a mesurau'r ochr alwadau.  Targed: i fod yn barod erbyn mis Ionawr 2002.

A12. ELWa – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gadeirio gweithgor i baratoi strategaeth gyffredinol ar gyfer cysylltu cyflogwyr ag addysg uwch yng Nghymru, gan edrych yn benodol ar sut y gallai cyflogwyr yng Nghymru wneud gwell defnydd o sgiliau lefel uchel. Targed: adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2002.

## B. Rhoi'r Sgiliau Angenrheidiol ar gyfer Gwaith i Newydd-ddyfodiaid i'r Farchnad Lafur

### Y Strategaeth

26. Yn yr adran hon, ymdrinnir ag anghenion dysgu pobl ifanc a phobl eraill nad ydynt wedi bod yn rhan o'r farchnad lafur. Ein nod yw sicrhau fod pawb sy'n dod i mewn i'r farchnad lafur yn meddu ar y sgiliau i'w galluogi i ymgymryd â chyflogaeth gynaliadwy. Mae ein dull o gyflawni hyn yn cynnwys yr elfennau canlynol:

a. y ddarpariaeth ddysgu mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion i fod yn ddeniadol i ddysgwyr ac yn berthnasol i fyd gwaith;

b. ail-lunio ein llwybrau dysgu galwedigaethol;

c. sicrhau gwell cyrhaeddiad o ran sgiliau sylfaenol a sgiliau allweddol;

d. cynnig gwell cefnogaeth ariannol i ddysgwyr.

### Seiliau Rhesymegol

27. Er bod hyfforddiant yn y gwaith yn arwyddocaol ac yn bwysig, mae'n parhau i fod yn hollbwysig sicrhau bod newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur wedi'u harfogi gystal ag y bo modd er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr. Mae hynny'n bwysig iddyn nhw fel unigolion – er mwyn iddynt allu elwa i'r eithaf ar eu haddasrwydd i weithio ac ar y cyfle i gael swydd dda – ond mae'n bwysig hefyd i'w cyflogwyr ac i'r economi yn gyffredinol. Fel arall, byddai'n rhaid wrth ymdrech sylweddol gan gyflogwyr ynghyd ag ail-sianelu adnoddau er mwyn sicrhau fod newydd-ddyfodiaid yn cyrraedd lefel lle gallant wneud cyfraniad llawn a bod yn gyfan-gwbl gynhyrchiol. Byddai'n golygu hefyd y byddai ein lefelau o anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn uchel.

28. Mae'r rhai sy'n dod i mewn i'r farchnad lafur yn cynnwys pobl sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg neu'r brifysgol, neu bobl h^yn nad ydynt, am ba reswm bynnag, wedi bod yn gweithio. Gallai'r rhain gynnwys y rhai sydd newydd eu rhyddhau o gyfrifoldebau gofalu neu sydd wedi gwella ar ôl cyfnod o salwch yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddi-waith. Nis oes raid i'r gwaith o sicrhau fod y grwpiau hyn yn addas i'w cyflogi wrthdaro gydag amcanion ehangach addysg oherwydd y mae synergedd clos rhwng y mesurau sy'n angenrheidiol i gynnal dysgu a dyfeisgarwch ehangach a'r rhai sy'n angenrheidiol i gyflawni lefelau uwch o'r sgiliau sylfaenol, galwedigaethol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

29. Mae safonau a chanlyniadau yn gwella yng Nghymru ond mae gwaith ymchwil gan Sgiliau Dyfodol Cymru wedi amlygu bylchau arwyddocaol yn

sgiliau'r rhai sy'n gadael yr ysgol a'r coleg, yn enwedig o safbwynt profiad ymarferol a sgiliau cyfathrebu.  Nod y cymwysterau Sgiliau Allweddol newydd yw gwella sgiliau cyflogaeth generig ar draws pob llwybr dysgu.  Mae angen cadw mwy o bobl ym maes dysgu am gyfnod hwy yn ogystal â gwella opsiynau galwedigaethol mewn ysgolion a thu hwnt fel y bydd disgyblion o allu uwch yn ymgymryd â hwy ac i greu gwell ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr o'r hyn y mae gwaith yn ei olygu.  Yn *Y Wlad sy'n Dysgu* cynigir y dylid gweddnewid y ddarpariaeth ar gyfer y rhai sydd rhwng 14 ac 19 oed er mwyn gwneud i ffwrdd â rhwystrau artiffisial megis y rhai rhwng llwybrau academaidd a llwybrau galwedigaethol.  Mae gennym ddiffyg sylweddol o ran sgiliau sylfaenol sy'n mynnu sylw brys –54% yn unig o'n plant sy'n cyflawni graddau TGAU A-C yn Saesneg a 43% yn unig mewn mathemateg; nid yw 28% o oedolion yn meddu ar sgiliau sylfaenol ymarferol mewn llythrennedd ac nid yw 32% yn meddu ar sgiliau rhifedd.  Rhoddir sylw i'r materion hyn trwy ein Strategaeth Sgiliau Sylfaenol.  Mae gwaith ar y gweill, hefyd, i wneud cymwysterau yn fwy deniadol i ddysgwyr gan eu galluogi, yn fwyaf penodol, i gyflawni cymwysterau mewn camau cyfleus.  Mae angen hefyd i'r bobl sy'n bwriadu mynd i mewn i'r farchnad lafur feddu ar wybodaeth dda am yr hyn y mae cyflogwyr yn chwilio amdano a pha swyddi a chyfleoedd mentergarwch sydd ar gael iddynt.  Nid yw oddeutu 11% o bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed mewn gwaith, hyfforddiant nac addysg a bydd angen cefnogaeth a help ychwanegol ar y bobl ifanc hynny yn aml iawn i'w galluogi i fynd i mewn i fyd gwaith.  O ystyried y newidiadau cyflym yn sefyllfa economaidd Cymru, a bod sgiliau newydd megis TGC yn angenrheidiol, erbyn hyn, mewn amrywiaeth eang o swyddi, gallai'r rhai hynny sydd wedi colli cysylltiad â'r farchnad lafur am beth amser ei chael yn anodd dychwelyd iddi heb ddiweddaru eu sgiliau. Gall dulliau gweithredu ar sail gymunedol a'r sector gwirfoddol sicrhau fod dysgu o fewn gwell cyrraedd i bobl, yn enwedig y grwpiau hynny sydd wedi'u heithrio fwyaf.

**Camau Gweithredu**

B1. Gwaith ymchwil fwy manwl a soffistigedig dan faner Sgiliau Dyfodol Cymru i'r hyn y mae cyflogwyr yn chwilio amdano mewn gwirionedd, gan gynnwys sgiliau sylfaenol, generig a galwedigaethol, yn enwedig yn y sectorau economaidd y disgwylir iddynt gynyddu o ran pwysigrwydd. Targed – Sgiliau Dyfodol Cymru i gynnwys hyn yn y prif arolwg nesaf yn 2003.

B2. Gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol i Gymru, gyda'i ffocws ar: roi cyhoeddusrwydd parhaus i bwysigrwydd sgiliau sylfaenol; cynlluniau gweithredu ar raddfa leol a chenedlaethol; rhaglenni effeithiol i gyflawni gwelliannau; cymwysterau llythrennedd a rhifedd i bobl ifanc ac oedolion; hyfforddiant i staff a safonau ansawdd.

B3. ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol i weithio gyda'r Gwasanaeth Cyflogi/Canolfan Byd Gwaith i gyflawni ei gynllun ar gyfer dynodi ac asesu sgiliau sylfaenol trwy sicrhau fod darpariaeth sgiliau sylfaenol ar gael i'r rhai sydd ei hangen.

B4. Cyflwyno fframwaith o gymwysterau sy'n seiliedig ar gredydau yng Nghymru ac a fydd yn galluogi dysgwyr i weithio tuag at gyflawni cymwysterau neu ddyfarniadau trwy gyrchu at ddysgu mewn camau cyfleus. Targed: sicrhau system weithredol erbyn mis Ebrill 2003

B5 Y Cynulliad, trwy weithio gydag ACCAC, i fonitro'r nifer sy'n ymgymryd â Chymwysterau Sgiliau Allweddol ym mhob llwybr dysgu a pharatoi adroddiad adolygu erbyn mis Rhagfyr 2003.

B6 Codi safonau rhifedd a chynyddu'r diddordeb mewn mathemateg. Yn ogystal â chefnogaeth a dargedir trwy raglen GEST y Cynulliad, i wella ansawdd addysgu, bydd y Cynulliad yn cefnogi'r broses o benodi cydlynydd cenedlaethol i annog a threfnu gweithgareddau a fydd yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at fathemateg ac i gefnogi datblygiad proffesiynol i athrawon. Targed: penodi cydlynydd erbyn mis Ionawr 2002.

B7. Rhoi Bagloriaeth Gymreig ar brawf er mwyn cynnig opsiwn ehangach o ran cymwysterau gan gynnwys dysgu galwedigaethol a sgiliau allweddol. Targed: 18 peilot yn weithredol mewn ysgolion a cholegau erbyn mis Medi 2003.

B8. Gwella ansawdd lleoliadau profiad gwaith i bobl ifanc trwy: Estyn yn cynnal astudiaeth thematig gyda phobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed; y Cynulliad yn comisiynu astudiaeth i archwilio'r broses o gysylltu profiad gwaith gyda chymwysterau galwedigaethol fel rhan o lwybr dysgu galwedigaethol cliriach; archwilio'r manteision o gyflwyno dyfarniad “cefnogi pobl ifanc” i gyflogwyr sy'n cyrraedd y safonau a bennwyd ar gyfer profiad gwaith a dysgu yn y gwaith. Targed: cwblhau erbyn mis Rhagfyr 2003.

B9.  Ailwampio rhaglenni hyfforddiant yn y gwaith (Prentisiaethau Modern, Rhaglenni Cenedlaethol i Hyfforddeion, Diploma Sgiliau Modern i Oedolion, Adeiladu Sgil, Dysgu yn y Gwaith i Oedolion) gan ddefnyddio dull a fydd yn addas i bob oedran, er mwyn eu gwneud yn fwy deniadol a gwella eu hansawdd. Targed: rhaglenni diwygiedig i fod yn barod erbyn mis Ebrill 2003.

B10. Y Cyngor Cyllido Addysg Uwch – ELWa i annog sefydliadau Addysg Uwch i gymryd camau fel rhan o'u strategaethau addysgu a dysgu i sicrhau bod eu myfyrwyr i gyd yn meithrin sgiliau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, gan ddefnyddio'r ystod lawn o brofiadau dysgu sy'n cynnwys profiad gwaith a gweithgareddau gwirfoddol.

B11. Y Cyngor Cyllido Addysg Uwch – ELWa i annog a chefnogi'r gwaith o gyflwyno ar raddfa ehangach gyrsiau Gradd Sylfaen dros ddwy flynedd yng Nghymru.

B12. Sefydlu rhaglen beilot o secondio myfyrwyr gradd TGC i gymunedau, i helpu cymunedau i ddylunio gwefannau ayb. tra'n rhoi profiad gwaith perthnasol i'r myfyrwyr hynny.  Targed – peilot yn barod erbyn mis Medi 2002.

B13. Sicrhau gwell cefnogaeth ariannol i ddysgwyr trwy ystyried argymhellion y grwp ymchwilio annibynnol sy'n edrych ar drefniadau ariannu myfyrwyr a chaledi ymysg myfyrwyr yng Nghymru a cheisio rhoi'r pwerau deddfwriaethol ar waith i ddarparu sylfaen statudol gadarn i roi hawl i ddysgwyr dderbyn bwrsariaethau a lwfansau cynnal. Targed: erbyn mis Medi 2003

B14. ELWa – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i sefydlu grwp arbenigol i gynghori'r Cynulliad a phartneriaid eraill ynghylch y camau allweddol y mae angen eu cymryd i gynyddu nifer y bobl a chanddynt sgiliau TGC lefel uwch a'u cadw yng Nghymru.

## C. Gweithio gyda Chyflogwyr a Gweithwyr i Wella Sgiliau.

### Y Strategaeth

30. Mae arnom angen dull mwy cadarn a mwy cydlynol o sicrhau gwelliant parhaus yn sgiliau'r rhai hynny sydd eisoes mewn gwaith yng Nghymru. Byddwn yn cyflawni hynny trwy:

a. wrando ar gyflogwyr ac undebau llafur a gwella'r peirianweithiau ar gyfer eu helpu i wella sgiliau'r gweithlu;

b. sicrhau bod darpariaeth ddysgu a chymwysterau addas ar gael a'u bod wedi'u deall yn dda;

c. mynd ati'n frwd i farchnata cymwysterau a chyfleoedd dysgu;

d. darparu pecynnau effeithiol o gefnogaeth dysgu ac ymchwil i gyflogwyr unigol a dysgwyr unigol.

## **Seiliau Rhesymegol**

31. Mae 80% o'r bobl a fydd yn y gweithlu yn 2011 yn gweithio'n barod ac, oherwydd hynny, y rhain yw'r grwp targed mwyaf ar gyfer gwella'r sefyllfa o ran sgiliau yng Nghymru yn y tymor byr i ganolig. Bydd rhai o'r rhain yn ymgymryd â dysgu ffurfiol ond ni fydd y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud hynny. Mae'n rhaid i ni eu symbylu'n fwy er mwyn iddynt wella eu sgiliau a symbylu'r cyflogwyr – yn enwedig Busnesau Bach a Chanolig eu Maint – i'w cefnogi. Gweithredu ar sail partneriaeth i hyrwyddo dysgu yn y gweithle, yn aml iawn, sydd fwyaf llwyddiannus.

32. Mae cyflogwyr eisoes yn cefnogi llawer o ddysgu – i raddau mwy mae'n debyg na chefnogaeth uniongyrchol rhaglenni'r sector cyhoeddus. Dengys yr Arolwg Gweithlu Llafur bod un rhan o bump o weithwyr wedi ymgymryd â rhywfaint o hyfforddiant a oedd yn gysylltiedig â'u gwaith yn ystod y chwarter blwyddyn blaenorol. Serch hynny, rhaid gwneud mwy – bu i un rhan o bump o gyflogwyr yn arolygon Sgiliau Dyfodol Cymru gyfaddef nad oeddent wedi hyfforddi eu staff yn ddigonol ar gyfer eu swyddi ac mae'n amlwg fod rhai grwpiau o weithwyr yn ymgymryd â llawer llai o ddysgu nag eraill.

33. Gall diffyg darpariaeth ddysgu addas yng Nghymru fod yn ffactor. Er enghraifft, mae'r diwydiant dillad yng Nghymru yn cyflogi oddeutu 7,000. Mae'r diwydiant wedi amlygu angen am ragor o sgiliau ar Lefel 3, ond dau ddarparwr yn unig sydd yn y DU, a'r ddau ohonynt yn Ne Ddwyrain Lloegr. Mae'n amlwg felly ei bod yn bwysig i ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol ddatblygu'r rhwydwaith cyflenwi ac i'r cyflogwyr a'r darparwyr archwilio dulliau eraill megis dysgu o bell.

34. Mae angen datblygu sgiliau lefel uchel yng Nghymru, ym maes Ymchwil a Datblygu, er enghraifft. Mae sgiliau uwch yn gysylltiedig ag incwm personol uwch, gwaith mwy boddhaol a, thrwy greu twf, y maent yn creu galw am swyddi sgiliau-is. Mae eu heisiau hefyd i gynyddu lefelau cynhyrchiant yng Nghymru a gwella'r hinsawdd i fusnesau cystadleuol a chynaliadwy. Mae'r mater o gefnogaeth i Ymchwil a Datblygiad yn y sector preifat, ac ystyriaethau sy'n berthnasol i'r wybodaeth sy'n deillio o'n sefydliadau Addysg Uwch y tu hwnt i gwmpas y cynllun gweithredu hwn ond mae'n amlwg fod yn rhaid gwneud mwy i gynyddu'r defnydd a wna cyflogwyr o sgiliau lefel uchel os yw Cymru am gyflawni gwell twf economaidd. (gweler A12).

35. Mae llawer o gyflogwyr yn bryderus, os ydynt yn buddsoddi'n sylweddol i wella sgiliau eu gweithwyr y bydd y gweithwyr hynny, wedyn, yn eu gadael i fynd i swyddi eraill. Ar yr un pryd, mae'n bosibl na fydd y bobl sy'n uwchraddio eu sgiliau, o anghenraid, yn sicrhau gwell swyddi. Rhaid sicrhau dull integredig a chydlynol o weithredu sy'n gwella'r cysylltiadau rhwng sgiliau a swyddi o werth uwch ac sy'n helpu cyflogwyr i dorri allan o'r fagl sgiliau isel/GDP isel. Dylai'r cynigion a amlinellir yn adran A uchod helpu i gyflawni hyn trwy wella'r peirianweithiau datblygu sgiliau. Mae angen gweithredu hefyd ar lefel y cyflogwr unigol er mwyn buddsoddi mwy mewn gwaith ymchwil, cynyddu ymrwymiad i hyfforddiant, er enghraifft trwy'r Cynllun Hyfforddi i

Gwmnïau Bach, a'r rhaglen Buddsoddwyr mewn Pobl, meincnodi dan arweiniad cyflogwyr a thrwy annog mwy i ymgymryd â hyfforddiant i reolwyr. Un o'r dulliau mwyaf effeithiol yw helpu cwmnïau i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac mae angen rhwydweithiau lleol cryfach o gyflogwyr i alluogi hynny i ddigwydd. Dylai llawer o'r cymhelliant hefyd ddod o du'r gweithiwr ei hun ac mae angen i ni wneud mwy er mwyn gwneud dysgu mewn cyflogaeth yn fwy deniadol. Mae gan yr Undebau Llafur rôl i'w chwarae yma, yn enwedig i hwyluso dysgu ymysg grwpiau o weithwyr lle mae traddodiad o'r fath yn brin.

**Camau Gweithredu**

C1. ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol, trwy weithio gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector newydd, i sefydlu rhwydweithiau o gyflogwyr ym mhob un o'i ranbarthau i rannu'r ymarfer gorau a hyrwyddo dulliau ar y cyd o gyflawni dysgu.

C2. ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol i ddarparu pecynnau o gefnogaeth i ddiwallu anghenion cyflogwyr – atebion hyblyg a chreadigol, gan ddefnyddio cyfrifon dysgu cwmni efallai, a hynny'n gysylltiedig â chefnogaeth Cyswllt Busnes, Gyrfa Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru.

C3. Sefydlu'r Diploma Sgiliau Modern i Oedolion fel rhaglen prif ffrwd sydd ar gael ar draws yr holl sectorau. Targed: fframweithiau hyfforddi ar draws yr holl feysydd erbyn Mawrth 2003.

C4. Y Cynulliad, trwy weithio gydag ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol a phartneriaid eraill, i gyflwyno rhaglen beilot i asesu'r effaith o ddarparu dysgu'n rhad ac am ddim i bawb hyd at lefel 3 NVQ a beth yw'r gwerth-am-bres o wneud hynny. Targed – y peilot i fod ar waith erbyn mis Medi 2002.

C5. Yng ngoleuni'r arfarniad o Gronfa Ddysgu Undeb Cymru, mae'r Cynulliad i ystyried ymestyn y dull arloesol hwn i faes dysgu yn y gweithle. Targed: asesu canlyniad yr arfarniad erbyn mis Gorffennaf 2002.

C6. Y Cynulliad i gyflwyno rhaglen i gyfnerthu'r Gwobrau Hyfforddiant Cenedlaethol a'r Gwobrau Hyfforddiant yng Nghymru fel y prif wobrau ar gyfer dysgu yn y gweithle yng Nghymru a'u gwneud yn fwy deniadol i gyflogwyr, darparwyr a dysgwyr. Targed: dyblu nifer y newydd-ddyfodiaid erbyn 2003.

C7. ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol, trwy weithio gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector newydd, Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain a grwpiau eraill o gyflogwyr i gynyddu'r ymrwymiad a'r ymwybyddiaeth o feincnodi cyflogwyr yn erbyn safonau ymarfer gorau. Targed: y strategaeth i fod yn barod erbyn mis Medi 2002.

C8. Ymgyrch gan ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol i hyrwyddo'r nifer sy'n ymgymryd ag NVQs a chymwysterau eraill sy'n cael eu cydnabod gan ddiwydiannu yng Nghymru. Targed – erbyn mis Medi 2002.

C9. ELWa i weithio gyda Chyngor Rheolaeth Cymru i gynhyrchu strategaeth i hybu hyfforddiant ym maes rheolaeth yng Nghymru, gan gynnwys cynigion i ddatblygu'r cysyniad o ganolfan ragoriaeth yn y maes hwn.  Targed: y strategaeth i fod yn barod erbyn mis Medi 2002.

C10. Datblygu strategaeth i gefnogi cyflogwyr yng Nghymru i fod yn sefydliadau sy'n dysgu, gan gynnwys hyrwyddo'r nifer sy'n ymgymryd â'r dyfarniadau Buddsoddwyr mewn Pobl.  Targed: gweithgor o gyrff perthnasol i gynhyrchu adroddiad gydag argymhellion erbyn mis Gorffennaf 2002.

## D. Helpu Mwy o Bobl i Sicrhau Swyddi Cynaliadwy

### Y Strategaeth

36. Mae angen i ragor o bobl weithio.  Dylai gweithredu'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol helpu i greu mwy o swyddi a gwell swyddi yng Nghymru, er y bydd amodau economaidd byd-eang yn fawr eu dylanwad. Mae angen i fesurau datblygu economaidd, megis entrepreneuraeth, datblygu sgiliau a chefnogaeth i ddulliau arloesol, fynd law yn llaw â mesurau i helpu pobl i sicrhau swyddi a hynny yw canolbwynt yr adran hon.

37. Ar hyn o bryd, nid yw oddeutu 25% o'n poblogaeth o oedran gwaith yn economaidd weithgar (y ffigwr ar raddfa'r DU yw oddeutu 21%) ac mae hyn yn ffactor arwyddocaol iawn yn ein lefelau cymharol isel o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) ac incwm personol.  Er bod y Fargen Newydd, budd-daliadau lles a phrif raglenni cyflogaeth eraill yn gweithredu ledled y DU heb eu datganoli, y mae camau ychwanegol y gellid eu cymryd yng Nghymru i helpu pobl i oresgyn y rhwystrau y gallant eu hwynebu wrth ymgymryd â gwaith.  Fe wnawn hynny trwy:

a. helpu i newid y diwylliant ymysg rhai grwpiau ac mewn rhai cymunedau sydd, yn ôl pob golwg, yn fodlon bod yn ddibynnol ar fudd-daliadau lles ac ar gyflogaeth sgiliau-isel sydd, yn aml iawn, yn waith tymor byr.  Rhaid i ni sicrhau hefyd nad oes unrhyw ragfarn ymysg cyflogwyr ynghylch cyflogi pobl o gefndiroedd penodol;

b. dylanwadu ar Lywodraeth y DU ac ychwanegu at raglenni'r Fargen Newydd yng Nghymru;

c. sicrhau gwell cydlyniad o ymyraethau yng Nghymru, er enghraifft rhwng y Gwasanaeth Cyflogi/Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, mudiadau cymunedol, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Gwasanaeth Prawf;

d. gwella'r ddarpariaeth o ofal plant a chludiant cyhoeddus;

e. darparu ystod mwy cynhwysfawr o wasanaethau i helpu pobl gyda phroblemau iechyd i gadw swyddi neu i ddychwelyd i weithio;

f. gwella'r wybodaeth a'r arweiniad a roddir i unigolion.

**Seiliau Rhesymegol**

38. Pe gallem godi'r cyfraddau gweithgarwch yng Nghymru i gyfateb â ffigwr gyfartalog y DU yna, a chymryd bod y rhai sy'n mynd i mewn i'r farchnad lafur yn meddu ar lefelau cyfartalog o gynhyrchiant, byddai'r gwahaniaeth o ran y GDP yng Nghymru a'r DU yn gostwng o rhwng traean a hanner. Hefyd, os bydd mwy o bobl mewn gwaith, bydd y sefyllfa o ran cynhwysiant cymdeithasol, datblygiad cymunedol a materion perthynol megis troseddau ac iechyd yn gwella a cheir gostyngiad, hefyd, yn y taliadau lles a'r baich y mae'r rheiny'n ei greu o ran trethi.

39. Mae gan Lywodraeth y DU rôl arwyddocaol i'w chwarae, trwy waith y Gwasanaeth Cyflogi/Canolfan Byd Gwaith i sicrhau bod y rhai sy'n derbyn budd-daliadau "anweithgarwch" yn fwy ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt o ran hyfforddiant a gwaith a thrwy raglenni megis y Fargen Newydd. Serch hynny, mae gan y Cynulliad gysylltiad clos ac, ynghyd â'i bartneriaid eraill, mae ganddo rôl allweddol i'w chwarae mewn ffyrdd eraill. Mae'n bosibl cyflawni gwelliannau i raglenni Llywodraeth y DU (ee defnyddio arian yr UE) a gall y Cynlluniad hefyd helpu'n uniongyrchol i oresgyn y rhwystrau a wyneba llawer o bobl wrth fynd i mewn i'r farchnad lafur. Yn ogystal â darparu hyfforddiant sgiliau a chyflogadwyedd addas, y mae'r rhain yn cynnwys gwell gofal plant a chludiant a help i ddiwallu anghenion pobl anabl, rhieni unigol a lleiafrifoedd ethnig. Gallwn weithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr i'w hannog i fod yn fwy hyblyg yn y patrymau gwaith a gynigiant i'w gweithwyr. Gallwn hefyd helpu i hwyluso'r cyfnod pontio i swyddi i eraill ar gyfer gweithwyr a gaiff eu bygwth gan ddiswyddiadau (ee trwy gyngor, arweiniad a hyfforddiant a dargedir), gan ostwng, trwy hynny, nifer y bobl sy'n wynebu anweithgarwch. Mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i'r gwaith o helpu'r niferoedd arwyddocaol o bobl sy'n hawlio budd-daliadau analluedd (cyn uched â 25% o'r boblogaeth o oedran gweithio mewn rhaid cymunedau). Hefyd, mae'n rhaid i ni archwilio ffyrdd newydd o helpu pobl i aros mewn gwaith yn hytrach na symud o fudd-dâl gwaeledd i fudd-dâl analluedd.

**<u>Camau Gweithredu</u>**

D1. Unedau Gwaith y Fargen Newydd yng Nghymru i gynghori ynghylch sut y gellid defnyddio, ymestyn ac ychwanegu at raglenni'r Fargen Newydd yng Nghymru. Gallai hynny gynnwys: cyflwyno dulliau gweithredu “Uchelgais” y Fargen Newydd, strategaeth sy'n gyfeiriedig at alw i hyfforddi pobl ddi-waith i ddiwallu anghenion grwpiau o gyflogwyr; a datblygu, gan ddefnyddio adnoddau Amcan 1 a 3, cwmpas o ychwanegiadau at y Fargen Newydd i helpu'r bobl sy'n economaidd anweithgar i fanteisio ar y gefnogaeth angenrheidiol i sicrhau gwaith. Targed – y strategaeth i fod yn barod erbyn

mis Gorffennaf 2002.

D2. Gwell cydweithio rhwng y Gwasanaeth Cyflogi/Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru ac ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol i sicrhau bod unigolion yn cael yr help angenrheidiol i sicrhau neu gadw cyflogaeth addas. Y Gwasanaeth Cyflogi/Canolfan Byd Gwaith ac ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol i lofnodi memorandwm o ddealltwriaeth sy'n amlinellu swyddogaethau'r naill a'r llall ac yn nodi'n glir beth yw'r trefniadau atgyfeirio o ran cyngor, arweiniad a darpariaeth ddysgu. Targed: y tri memorandwm yn barod erbyn mis Ionawr 2002.

D3. Rhoi pwysau ar yr Adran Waith a Phensiynau i sicrhau ei bod yn rhyddhau adnoddau digonol i sefydlu gallu i ddatblygu polisi yng Nghymru pan fydd y Gwasanaeth Cyflogi a'r Asiantaeth Budd-daliadau yn uno i ffurfio Job Centre Plus. Bydd hyn yn galluogi Job Centre Plus i chware rhan lawn yn y gwaith o gyfrannu tuag at agenda economaidd a pholisi cymdeithasol arbennig Cymru. Targed: yn barod erbyn mis Ebrill 2002.

D4. Uned Waith y Fargen Newydd yng Nghymru i ystyried a yw'r drefn fudd-daliadau newydd yn gweithredu fel cymorth neu rwystr rhag cyrchu at gyflogaeth gynaliadwy. Targed: adroddiad erbyn mis Ebrill 2002.

D5. Cynnal peilot o gefnogaeth ychwanegol gan y Fargen Newydd i bobl a chanddynt broblemau cyffuriau. Targed: 3 peilot ar waith erbyn mis Ebrill 2002.

D6. Gwella'r trefniadau i helpu pobl a chanddynt anableddau neu broblemau iechyd, sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, i gadw eu swyddi neu i ddychwelyd i weithio trwy sefydlu gwell rhwydweithiau rhwng y rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi iechyd, gweithwyr iechyd (gan gynnwys Meddygon Teulu, rheolwyr practis, ymwelwyr iechyd, nyrsys cymunedol, arbenigwyr iechyd galwedigaethol a swyddogion iechyd a diogelwch) a'r Gwasanaeth Cyflogi/Canolfan Byd Gwaith, ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol a Gyrfa Cymru. Targed: adolygu'r trefniadau rhwydweithio erbyn diwedd 2002.

D7. Asesu effaith y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth ar iechyd i ddynodi cyfleoedd pellach ar gyfer rhoi sylw ar y cyd i faterion sy'n ymwneud â helpu pobl a chanddynt broblemau iechyd i gyrchu at gyflogaeth a dysgu galwedigaethol er mwyn lleihau anweithgarwch economaidd a gwella iechyd. Targed: erbyn Ionawr 2002.

D8. Datblygu ymhellach ein strategaeth gofal plant er mwyn cynyddu'r cyflenwad o ofal plant o safon, a hwnnw'n ofal fforddiadwy a hygyrch. Targed: 22,000 o lefydd wedi'u noddi gan y Loteri Genedlaethol erbyn 2003.

D9. Atgyfnerthu'r Ymgyrch Cydbwysedd Bywyd a Gwaith trwy gyflwyno 3 peilot yn y sector cyhoeddus a dosbarthu'r canlyniadau yn eang. Targed – ar waith erbyn mis Ebrill 2002.

D10. Adolygu effeithioldeb cynlluniau marchnad lafur canolraddol er mwyn goleuo datblygiad polisïau at y dyfodol.  Cwblhau'r adolygiad erbyn diwedd 2002.

D11. Ychwanegu at rôl Gyrfa Cymru fel y porth i rwydwaith o gyngor ac arweiniad i helpu pobl gael swyddi addas, gan gynnwys penodi cyfarwyddwr marchnata cenedlaethol, Dyfarniad Ansawdd Gyrfa Cymru i ysgolion a darparwyr dysgu eraill, a darparu gwasanaeth rhyngweithiol sy'n seiliedig ar y we.  Targed: y cyfan i fod yn barod erbyn mis Medi 2002.

D12. Prosiect peilot i annog pobl ddi-grefft a'r di-waith i geisio am swyddi y mae cyflogwyr yn ei chael yn anodd eu llenwi trwy gynnig cymhellion sy'n gysylltiedig â hyfforddiant (ee cyfraniad tuag at bensiynau rhanddeiliaid ar ôl cwblhau'r hyfforddiant).  Targed – dechrau erbyn mis Medi 2002.

D13 Asesu'r hyn y gellid ei wneud i wella cludiant cyhoeddus lle teimla niferoedd arwyddocaol o bobl ddi-waith fod hyn yn rhwystr arwyddocaol rhag teithio i'r gwaith.  Targed – cwblhau'r asesiad erbyn mis Rhagfyr 2002.

D14. Fel rhan o raglen adfywio Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a strategaethau dysgu ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol, ac adeiladu ar brofiad y Cylchoedd Cyflogi a'r Timau Gweithredu ar gyfer Swyddi, y Cynulliad i weithio gydag ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol i ymgymryd ag astudiaeth, a fydd yn arwain, o bosib, at gynlluniau peilot i brofi dulliau newydd o ddysgu galwedigaethol cymunedol a helpu'r bobl sy'n economaidd anweithgar i ymgymryd â dysgu a gwaith.   Targed: dechrau'r astudiaeth erbyn mis Medi 2002.

## SUT I YMATEB

Papur ymgynghori drafft yw'r ddogfen hon a chyhoeddir y fersiwn derfynol ar ddechrau 2002. Wnewch chi anfon unrhyw sylwadau ar y drafft **erbyn 31 Rhagfyr** at:

Bob Waller
Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu ebostiwch at:bob.waller@wales.gsi.gov.uk